# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2001

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 3 + 9 yn ôl.

**2.40pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.47pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Ieuan Wyn Jones** ar y diffyg cyfle i holi Trefnydd y Cynulliad ar ôl iddo wneud yr hyn a oedd cystal â bod yn ddatganiad.

**Phil Williams** ar y Cod Gweinidogol a'r ffaith bod gofyn i Weinidogion wneud cyhoeddiadau polisi o fewn y Cynulliad.

**2.51pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001**
*NDM887* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM 888* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**Cymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001**
*NDM 889* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM 890* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y Gorchymyn**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001**
*NDM 891* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM 892* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y Gorchymyn**

**2.57pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001**
*NDM 893* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM 894* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.02pm**
**Dadl ar Adolygiad Polisi Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar Drafnidiaeth Gyhoeddus**
*NDM 895* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad Ymgynghori Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, "Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus", y gellir ei ddarllen drwy glicio isod.

Yn nodi Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, "Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus - Adroddiad Terfynol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.56pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
NDM886 - Byddai'n well i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael Prif Weinidog amser llawn.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
***Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);***
*Dileu 'Byddai'n well i', rhoi 'Mae' yn eu lle, dileu popeth ar ôl 'Cymru' ac ychwanegu'r pwyntiau newydd hyn:*

1. yn llongyfarch y Prif Weinidog ar ei arweinyddiaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru;
2. yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae wedi'i wneud i sefydlu llywodraeth effeithiol yng Nghymru; a
3. yn edrych ymlaen at ei gyfraniad parhaus i ddatblygiad polisïau sydd wedi'u hanelu at ddiwallu anghenion pobl Cymru.

**Gwelliant 2 - Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**
Dileu popeth ar ôl "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" ac ychwanegu:

pe bai perfformiad y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru fel gwrthbleidiau o'r un safon uchel â pherfformiad Llywodraeth Bartneriaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Llafur.

**Cynhaliwyd pleidlais**
**Gwelliant 1**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.59pm

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05am ddydd Iau, 13 Rhagfyr 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**